CYNGOR SIR PENFRO

DATGANIAD LLYWODRAETHIANT BLYNYDDOL

2015-16

ADRODDIAD LLYWODRAETHIANT BLYNYDDOL 2015-16

1. Cwmpas Cyfrifoldeb

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod a chyfrif iawn amdano, a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae gan y Cyngor ddyletswydd hefyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y caiff ei swyddogaethau eu hymarfer, i roi sylw i effeithiolrwydd strategol, ansawdd gwasanaethau, argaeledd gwasanaethau, tegwch, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd a newydd-deb.

Wrth gyflawni ei gyfrifoldeb cyffredinol, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am ddarparu trefniadau priodol ar gyfer llywodaethiant dros ei fusnes sy'n hwyluso ymarfer swyddogaethau'r awdurdod, gan gynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg a sicrhau system gadarn o reolaeth fewnol.

Cymeradwywyd Cod Lleol Llywodraethiant Corfforaethol y Cyngor gan y Pwyllgor Llywodraethiant Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 29 Mehefin 2011. Mae'r Cod a fabwysiadwyd yn gyson ag egwyddorion *'CIPFA/SOLACE Framework', 'Delivering Good Governance in Local Government'*. Mae copi o'r Cod i'w weld ar ein gwefan: www.pembrokeshire.gov.uk neu gellir cael copi oddi wrth y Prif Swyddog Cyllid. Caiff Cod Lleol Llywodraethiant Corfforaethol y Cyngor ei ddiweddaru yn 2016-17 i adlewyrchu'r canllaw CIPFA 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework (2016 Edition)', a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r Datganiad hwn yn esbonio sut mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'r Cod a hefyd yn bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru 2014 ac arfer cysylltiedig.

2. Diben y Fframwaith Llywodraethiant

Mae'r fframwaith llywodraethiant yn cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwelliant sy'n cyfarwyddo'r Awdurdod a'i reoli ef a'i weithgareddau ar gyfer rhoi cyfrif i'r gymuned, yn ymwneud â hi ac yn ei harwain. Mae'n galluogi'r Awdurdod i fonitro sut mae'n cyrraedd ei amcanion strategol ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol sy'n effeithiol o ran cost.

Mae'r system rheoli mewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith hwnnw ac mae wedi'i llunio i reoli risg hyd at lefel resymol. Ni all ddileu pob risg i fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion, ac felly ni all ond darparu sicrwydd rhesymol, ond nid llwyr, o effeithiolrwydd. Mae'r system o reoli mewnol yn seiliedig ar broses barhaus wedi'i llunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau rhag bodloni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor, i arfarnu tebygolrwydd y caiff y risgiau hynny eu gwireddu, a'r effaith os cânt eu gwireddu a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Mae'r fframwaith llywodraethiant wedi bod ar waith yn yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol yn diweddu ar 31 Mawrth 2016 a hyd at ddyddiad cymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2015-16.

3. Y Fframwaith Llywodraethiant

Mae crynodeb isod o brif elfennau fframwaith llywodraethiant yr awdurdod.

3.1 Amcanion, Polisi a Gwneud Penderfyniadau

Cynllun Integredig Sengl 2013-18

Y Cynllun Integredig Sengl yw'r cynllun hollgynhwysol ar gyfer Sir Benfro sy'n amlinellu gweithgarwch y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn Sir Benfro dros y cyfnod 2013-18.

Mae'r Cynllun Integredig Sengl ar gyfer pawb sy'n byw yn Sir Benfro neu'n ymweld â'r Sir neu'n ymddiddori ynddi. Mae wedi'i baratoi ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd; ar gyfer pobl Sir Benfro, y cyrff sy'n gwasanaethu'r Sir ac yn fodd i gyfleu ein blaenoriaethau i asiantaethau allanol a Llywodraeth Cymru.

Cafodd y Cynllun Integredig Sengl ei baratoi gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Benfro (LSB) a'r partneriaethau cysylltiedig. Mae LSB yn cynnwys cynrychiolwyr uwch o Gyngor Sir Penfro, Heddlu Dyfed Powys, Bwrdd Iechyd Hywel Dda, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, Llywodraeth Cymru, Awdurdod Porthladd Aberdaugleddyf, Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Cafodd ei sefydlu ar gyfer darparwyr gwasanaethau i weithio'n nes at ei gilydd. Mae amrywiol sefydliadau eraill hefyd yn cefnogi gwaith LSB.

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, daeth LSB yn Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro (PSB) ym mis Ebrill 2016. Erbyn 2018 bydd yn ofynnol i PSB Sir Benfro baratoi a chyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol yn nodi pam mae PSB yn teimlo y bydd ei amcanion yn cyfrannu o fewn ei ardal leol at fodloni nodau llesiant, a sut y mae wedi rhoi sylw i'r Asesiad Llesiant Lleol wrth osod ei amcanion a'r camau i'w cymryd. Bydd hyn yn disodli'r Cynllun Integredig Sengl.

Y nod a'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer Sir Benfro yw "*To ensure that Pembrokeshire is prosperous and that it remains vibrant and special".* Yn dilyn Asesiad Anghenion Sengl, nodwyd chwe chanlyniad y mae partneriaid wedi cytuno i weithio tuag atynt yn y pum mlynedd nesaf (bydd hyn yn amodol ar arolwg fel rhan o Asesiad Llesiant Lleol i baratoi ar gyfer y Cynllun Llesiant Lleol):

- Mae gan blant, pobl ifanc a theuluoedd gyfle i gyflawni eu potensial dysgu a byw bywydau iach a hapus;
- Mae gan Sir Benfro economi gystadleuol, gynhyrchiol a chynaliadwy;
- Mae pobl yn Sir Benfro yn mwynhau amgylchedd ddeniadol, cynaliadwy ac amrywiol;
- Mae pobl yn Sir Benfro yn iachach;
- Mae plant ac oedolion yn cael eu gwarchod;
- Mae cymunedau yn Sir Benfro yn teimlo'n ddiogel.

Ym mis Tachwedd 2012 mabwysiadodd yr Awdurdod Strategaeth Ymwneud Cyhoeddus. Mae'r Strategaeth yn dangos ymrwymiad y Cyngor i osod ymwneud â'r cyhoedd wrth galon y gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau, polisïau a rhaglenni. Mae'n darparu arweiniad clir i Benaethiaid Gwasanaethau a rheolwyr a'r rheiny sy'n ymwneud yn rheolaidd â gweithgareddau sy'n cynnwys y cyhoedd. Mae'r Awdurdod hefyd yn cyhoeddi adroddiad blynyddol am ei waith ymwneud â'r cyhoedd, gan ddangos yr amrywiaeth eang o waith ymgynghori ac ymwneud ar draws yr Awdurdod a rhoi enghreifftiau o arfer da.

Mae Cynllun blynyddol Gweithredu ar Ymwneud yn cael ei ddatblygu a'i symud ymlaen gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Benfro gyda chefnogaeth gan Dîm Cefnogi Partneriaeth a Chraffu'r Cyngor a Thimau Cyfathrebu o brif sefydliadau partner.

Yn ogystal â'r gwaith sy'n cael ei wneud i ychwanegu at y Cynllun Integredig Sengl, dechreuodd y Cyngor ar gyfres o ddigwyddiadau Ymwneud Cyhoeddus yn ystod 2014 a barhaodd drwy gydol 2015 ac sy'n cael eu hwyluso'n annibynnol gan Participation Cymru. Mae hyn yn rhan o ddeialog barhaus â'r Gymuned a Gweithwyr i adolygu gweledigaeth ac egwyddorion arweiniol y Cyngor, ac i

ychwanegu at drawsnewid gwasanaethau'r Cyngor i fynd i'r afael â phwysau cyllideb nawr ac yn y dyfodol.

Ym mis Ebrill 2016 cynhaliwyd Seminar Gweledigaeth a Gweithdy ar y Cyd i Aelodau a Swyddogion, ac i hwnnw datblygwyd drafft o weledigaeth a gaiff ei hargymell i'r Cyngor ei chymeradwyo ym mis Gorffennaf 2016.

Amcanion Gwella

Caiff yr amcanion gwella blynyddol eu dewis i adlewyrchu dysgu o flynyddoedd blaenorol a chyngor a geir gan reoleiddwyr. Yr amcanion a ddewiswyd ar gyfer 2015-16 oedd:

- Gwella Ysgolion
- Plant sy'n Agored i Niwed
- Adfywio Canol Trefi
- Ail-lunio Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion
- Mynd i'r Afael â Thlodi

Gwneud Penderfyniadau

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn gweithdrefnu'r ffordd mae'r Cyngor yn gweithredu ac yn darparu'r fframwaith ar gyfer ei brosesau gwneud penderfyniadau, gan gynnwys trefniadau dirprwyo, ac mae'n gosod allan y gweithdrefnau manwl a'r codau ymarfer i Aelodau a Swyddogion weithredu er mwyn cyflawni amcanion y Cyngor. Mae arolwg o'r Cyfansoddiad, gan gynnwys y Cyfansoddiad Modiwlar, ar waith ar hyn o bryd a'r cam cyntaf i gael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2016 a'r ail yn yr hydref 2016.

Dan y Cyfansoddiad bydd yr Arweinydd a'r Cabinet yn ffurfio'r Gweithgor gwneud penderfyniadau. Rhaid i'r penderfyniadau fod yn unol ag amcanion y Cyngor, a byddant yn amodol ar gael eu harchwilio gan nifer o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Mae cyfarfodydd o'r Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau eraill yn agored i'r cyhoedd, ac eithrio lle bydd materion cyfrinachol neu faterion sy'n cael eu heithrio yn cael eu datgelu. Mae'n ofynnol i Aelodau ddatgelu buddiannau personol lle mae'n briodol a pheidio â chymryd rhan mewn trafodaeth a gohebiaeth lle gall fod ganddynt hefyd fuddiant rhagfarnol. Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys hawl i 'alw i mewn' benderfyniadau'r Cabinet i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Pwyllgor Safonau sy'n cynnwys Cynghorwyr Sirol a phersonau annibynnol "anetholedig" yw'r corff rheoleiddio ar gyfer goruchwylio gweithrediad a safonau ymddygiad Aelodau.

Bydd yr holl adroddiadau a ystyrir gan y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau a Chofnodion penderfyniadau a wneir, oni fyddant yn gyfrinachol neu'n cael eu heithrio, yn cael eu cyhoeddi a'u darparu ar wefan y Cyngor.

Yn ogystal, gall Uwch Swyddogion y Cyngor wneud penderfyniadau dan awdurdod wedi'i ddirprwyo. Mae gan y Cyngor Swyddog penodol â swyddogaeth statudol Swyddog Monitro, ac wedi'i bennu felly, yn gyfrifol am sicrhau bod penderfyniadau a wneir gan y Cyngor, y Cabinet, Pwyllgorau a'i Swyddogion yn gyfreithlon. Mae hefyd yn gyfrifol am ddarparu cymorth a chyngor ar gynnal safonau moesegol ac am gynghori Pwyllgor Safonau'r Cyngor. At hynny, mae Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau yn rheoli materion cyfreithiol ac yn darparu trosolwg ohonynt, a gweithrediad gweithdrefnau'r Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgorau.

3.2 Cydymffurfio â Pholisïau, Gweithdrefnau, Cyfreithiau a Rheoliadau Sefydledig

Mae swyddogaeth Swyddog Monitro'r Cyngor yn cynnwys cyfrifoldeb i ymchwilio i honiadau o dorri polisïau, gweithdrefnau, cyfreithiau a rheoliadau sefydledig, a hefyd i roi gwybod amdanynt. Mae gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau gyfrifoldeb cyffredinol dros faterion cyfreithiol ac i ddarparu cyngor lle bydd yn briodol.

Prif Swyddog Cyllid y Cyngor, fel Swyddog 151 y Cyngor, sy'n gyffredinol gyfrifol am weinyddu ariannol, ac fel y cyfryw am ddarparu cyngor, arweiniad a chyfarwyddyd mewn materion ariannol.

Mae gan y Cyngor Wasanaeth Archwilio Mewnol a'i swyddogaeth yn cynnwys arolygu cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau sefydledig, er mwyn penderfynu pa mor addas ac effeithiol yw'r amgylchedd reoli fewnol, ac Adrannau Polisi a Pherfformiad wrth ddarparu cymorth a chyngor.

Bydd gweithwyr newydd yn agored i gael hyfforddiant cyflwyno priodol sy'n cynnwys gwybodaeth am amrywiaeth o bolisïau, gweithdrefnau a rheoliadau gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol, llywodraethiant gwybodaeth, diogelwch, personnel a chodau ymddygiad.

Mae gan y Cyngor hefyd Bwyllgor Safonau a Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Bydd Fframwaith Trosolwg a Chraffu newydd yn cael ei gyflwyno ym mis Medi 2016.

Bydd y Pwyllgor Archwilio, sef Cynghorwyr Sirol ac Aelod annibynnol "anetholedig", yn ystyried materion yn ymwneud â materion busnes ariannol yr awdurdod a pha mor briodol yw ei reolaeth risg, ei reolaeth fewnol, ei lywodraethiant corfforaethol a'i drefniadau archwilio mewnol/allanol Bydd y Pwyllgor Archwilio'n darparu'r fforwm ar gyfer craffu'n ffurfiol ac yn dryloyw ar y trefniadau hyn, gan wella trefn drosolwg ac atebolrwydd trefniadau llywodraethiant yr Awdurdod. Tra bydd y Pwyllgor Archwilio yn adolygu Datblygiad Cyfrifon Blynyddol yr Awdurdod, y Pwyllgor Llywodraethiant Corfforaethol sy'n dal yn gyfrifol am eu cymeradwyo. Yn dilyn argymhelliad gan Swyddfa Archwilio Cymru fel rhan o'r Asesiad Corfforaethol, cynigir bod y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Llywodraethiant Corfforaethol yn cyfuno; fe atgyfeirir hyn i'r Cyngor am benderfyniad.

Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd sy'n ystyried materion yn ymwneud â democratiaeth. Mae'r Cyngor wedi penodi'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau yn swyddog statudol "Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd".

Yn ogystal, mae yna arolygwyr allanol o amrywiol gyrff, gan gynnwys archwilwyr allanol.

3.3 Rheolaeth Ariannol

Mae'r Prif Swyddog Ariannol yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor yn briodol ac am sicrhau bod y trefniadau ariannol yn eu lle i gydymffurfio â gofynion llywodraethiant Cipfa *Statement on the Role of the Chief Financial Officer in Local Government.*

Mae rheolau Gweithdrefn Fframwaith Polisi a Gweithdrefn Ariannol wedi eu hymgorffori yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn dibynnu ar gynigion am arian grant allanol, sy'n dod â risgiau yn ogystal â chyfleoedd ac sy'n gallu golygu cysylltiadau cymhleth.

Yn ystod 2015-16 cafodd yr Adroddiad Integredig ei gyflwyno i ymgorffori Data Ariannol, Rheolaeth Fewnol, Rheolaeth Risg Busnes a Data Perfformiad, sydd wedi cael eu cyflwyno bob chwarter i'r Cabinet a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Mae hyn wedi galluogi'r Cabinet a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu i ddarparu mwy o her mewn cysylltiad â gwasanaethau ac i nodi ble mae angen cymryd camau cywiro.

Bydd trefniadau Llywodraethiant Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn dilyn arfer proffesiynol yn unol â'r cod diweddaraf ac maent yn amodol ar arolwg rheolaidd gan y Panel Rheolaeth Trysorlys.

Bydd Datganiadau Cyfrifon Blynyddol yn rhoi cipolwg ar sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth ac maent yn amodol ar archwiliad allanol gorfodol, a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r broses hon hefyd yn caniatáu ar gyfer archwiliad cyhoeddus blynyddol.

Er mwyn cydymffurfio â'r Rhaglen Effeithlonrwydd a Lleihau Costau, cynhaliwyd cyfres o sesiynau i gysylltu ag Aelodau a'r Cyhoedd un ystod yr haf a'r hydref 2015. Mae hyn yn rhan o broses barhaus o weithio gyda'r Cyhoedd, Aelodau, Rheolwyr a Gweithwyr i wella'r rhaglen.

3.4 Rheolaeth Ariannol

Mae'r drefn rheolaeth ariannol fewnol yn seiliedig ar fframwaith o wybodaeth reolaidd am gyllideb a rheolaeth, rheoliadau ariannol, archebion sefydlog yn ymwneud â chontractau a

threfniadau eraill i reoli caffael, rheolau gweithdrefn a chyfarwyddiadau ariannol safonol, ynghyd â threfniadau gweinyddu (gan gynnwys gwahanu dyletswyddau), goruchwylio rheolaeth a system o ddirprwyo ac atebolrwydd sy'n cael ei hadolygu gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

Caiff cofrestr risg twyll ei chadw gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar sail gwybodaeth leol am wasanaethau a'r twf mewn risgiau twyll sy'n cael eu cydnabod yn eang. Mae hyn yn amodol ar arolwg parhaus i sicrhau ei bod yn parhau'n gyfredol, a chaiff ei defnyddio i fod yn ganolbwynt i waith atal twyll sy'n cael ei wneud gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

Mae'r gwaith ar Atal Twyll ac Ymwybyddiaeth o Dwyll sydd wedi'i wneud yn ystod y tair blynedd diwethaf wedi cynyddu nifer yr achosion o dwyll ac afreoleidd-dra honedig sydd wedi'u cyfeirio i'w harchwilio. Golygodd hyn fod rheoliadau wedi'u hatgyfnerthu mewn meysydd lle mae archwiliadau wedi'u gwneud. Gall y pwysau cyllideb parhaus gynyddu tebygolrwydd twyll wrth i gymhelliad, cyfle a rhesymoli ymddygiad ddod yn fwy amlwg. Mae hyn yn rhoi mwy o bwyslais ar waith atal twyll fel dull atal ac i nodi a dilyn twyll yn unol â pholisi'r Awdurdod o beidio â goddef twyll o gwbl.

3.5 Hyrwyddo Gwerthoedd, Safonau ac Ymddygiad

Mae yna fframwaith yn ymwneud â safonau a moeseg sy'n cynnwys:

- Codau Ymddygiad i Swyddogion ac Aelodau
- Datganiad Cyfle Cyfartal
- Cofrestri buddiannau personol a busnes a gweithdrefnau cysylltiedig ar gyfer datblygiadau eraill
- Polisi ar Chwythu'r Chwiban
- Gweithdrefn Cwynion Corfforaethol
- Cod Ymarfer ar gyfer ystyried ceisiadau ac apelau cynllunio
- Strategaeth Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo
- Pwyllgor Safonau
- Swyddog Monitro Penodedig yn unol â deddfwriaeth
- Rhaglenni hyfforddi a chyflwyno Aelodau a Swyddogion

Mater o arfer da yw i Aelodau unigol lunio adroddiad blynyddol am eu gwaith yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae hyn wedi'i wneud gan rai Aelodau.

3.6 Rheoli Risg ac Archwilio Mewnol

Caiff Strategaeth Rheoli Risg Busnes ei chynhyrchu bob dwy flynedd a'i diweddaru bob blwyddyn i sicrhau ei bod yn canolbwyntio'n briodol. Yn eu cyfarfod ar 22 Mehefin 2015 cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio y Strategaeth ddiweddaraf ar Reoli Risg Busnes. Caiff cynnydd o'i gymharu â'r cynllun gwaith sydd wedi'i gymeradwyo ei ddarparu i'r Pwyllgor Archwilio drwy gydol y flwyddyn.

Bydd y Grŵp Rheoli Risg Corfforaethol yn darparu cyfeiriad strategol i'r Grŵp Rheoli Risg Gweithredol ac yn adolygu'r Gofrestr Risg Corfforaethol bob chwarter. Y Grŵp hwn sy'n gyfrifol am sicrhau bod pob risg o bwys y daw'r Cyngor ar eu traws yn cael ei nodi a'i asesu a bod ymateb iddynt ar lefel briodol. Mae hynny'n cynnwys gwasanaeth risgiau o bwys i wasanaethau, cyfarwyddiaethau a busnes corfforaethol. Cydnabyddir bod y Cyngor yn wynebu newidiadau demograffig sy'n effeithio ar ddarparu rhai gwasanaethau. Mae system Rheoli Risg Busnes ar-lein ar gael, a'r cynnwys ac asesiadau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gan reolwyr gwasanaethau. Caiff rheoli risg ei ymgorffori mewn cynllunio busnes/gwasanaeth a gweithrediadau. Caiff Cofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor ei chymeradwyo bob blwyddyn gan y Cabinet a'i hadolygu bob chwarter gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio. Gellir mynd ati drwy'r agendau ar-lein.

Caiff y swyddogaeth Rheolaeth Risg Busnes ei rheoli gan y Rheolwr Archwilio a Rheoli Risg. Er mwyn cynnal annibyniaeth, gwnaed arolwg archwilio o'r swyddogaeth Rheolaeth Risg Busnes gan Gyngor cyfagos, a golygodd hynny farn archwiliad sicrwydd sylweddol ar gyfer 2015-16.

Bydd y Cyngor yn cynnal Gwasanaeth Archwilio Mewnol, ac mae cynllun gwaith hwnnw'n cynnwys ei asesiadau risg ei hun a phrif risgiau 'r Cyngor a'i Gyfarwyddiaethau. Mae'n gweithredu gan gymryd i ystyriaeth safonau proffesiynol, yn enwedig Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, gan adrodd yn ôl i reolwyr gwasanaeth ar lefelau priodol.

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol (y Rheolwr Archwilio a Risg Busnes) ddarparu barn archwilio mewnol ac adroddiad blynyddol y gellir eu defnyddio gan y sefydliad i ychwanegu at ei ddatganiad llywodraethiant.

Y Pennaeth Archwilio Mewnol (y Rheolwr Archwilio a Risg Busnes) sy'n gyfrifol hefyd am sicrhau bod y trefniadau archwilio mewnol yn cydymffurfio â gofynion llywodraethiant Cipfa *Statement on the Role of the Head of Internal Audit in Public Service Organisations.*

Caiff trefniadau Rheolaeth Risg Busnes ac Archwilio Mewnol y Cyngor eu monitro gan y Pwyllgor Archwilio.

Bydd y Pennaeth Technoleg Gwybodaeth a Gwasanaethau Cymorth Canolog yn gweithio fel yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr. Dros dro mae'r cymorth hwn wedi'i drosglwyddo i'r Prif Swyddog Cyllid yn absenoldeb y Pennaeth Technoleg Gwybodaeth a Gwasanaethau Cymorth Canolog.

Mae Grŵp Llywodraethiant Llywio TG/Gwybodaeth, sy'n cynnwys uwch swyddogion o bob rhan o'r Cyngor, yn bodoli i sicrhau bod asesu risg a diogelu gwybodaeth y Cyngor yn parhau. Yn dilyn cyfarfodydd o'r Grŵp, bydd yr SIRO yn adrodd i'r Tîm Rheolaeth Gorfforaethol. Mae gan y Cyngor nifer o ddulliau diogelu ar waith i warchod ei wybodaeth, a hynny'n cynnwys amgryptio dyfeisiau TG symudol, cyfryngau storio a gohebiaeth e-bost. Caiff y dyfeisiau hyn eu hadolygu a'u gwella'n gyson, gydag archwiliad o drefniadau llywodraethiant gwybodaeth y Cyngor gan sefydliadau megis Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Darperir hyfforddiant yn fewnol a chan hyfforddwyr allanol.

3.7 Rheolaeth Perfformiad, Ansawdd a Defnyddio Adnoddau

Bydd y Cyngor yn paratoi Cynllun Gwella Blynyddol sy'n crynhoi'r cynnydd o'i gymharu â thargedau ac yn gosod y prif amcanion ar gyfer gwella perfformiad a safonau gwasanaeth am y flwyddyn i ddod. Fel rhan o fframwaith y Cyngor i reoli perfformiad, mae'n ofynnol i bob Cyfarwyddiaeth gynhyrchu cynlluniau gwella gwasanaethau sy'n gydnaws â'r Cynllun Gwella Sengl a'r Cynllun Gwella Blynyddol, sydd wedi gosod targedau penodol i gyrraedd yr amcanion hynny ar lefelau gwasanaeth. Ar gyfer 2015-16 rhoddodd pob Pennaeth Gwasanaeth Gwybodaeth adroddiad am gynnydd chwarterol i'r Tîm Rheolaeth Gorfforaethol am ei gynlluniau gwella gwasanaeth.

Rhaid i Arfarniadau Perfformiad yn gydnaws ag amcanion corfforaethol a gwasanaeth cyffredinol gael eu cynnal ar gyfer pob gweithiwr naill ai'n unigol ynteu fel rhan o dîm.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn defnyddio system rheoli perfformiad i reoli data perfformiad.

Cafodd y Cynllun Rheolaeth Asedau Strategol diwygiedig 2015-16 i 2019-20 a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig eu cymeradwyo gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2015. Mae Gweithgor Rheolaeth Asedau Strategol o Aelodau/Swyddogion wedi'i sefydlu i fonitro rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith, er mwyn rheoli asedau eiddo'r Cyngor yn well gan wneud y gorau o arbedion refeniw a derbyniadau cyfalaf.

Mae'r Fframwaith Rheolaeth Perfformiad yn rhoi pwyslais mawr ar bwysigrwydd mesur ansawdd gwasanaethau i ddefnyddwyr. At hynny, mae agwedd y Cyngor at Gynllunio Gwella Gwasanaethau hefyd yn annog penaethiaid gwasanaethau i nodi ffynonellau priodol o farn defnyddwyr gwasanaethau.

Rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno Fframwaith newydd ar Wella Perfformiad Llywodraeth Leol yn 2017, a fydd yn golygu adalw Dangosyddion Strategol Cenedlaethol ac yn diffinio'r hyn y mae angen i Lywodraeth Leol adrodd amdano i atgyfnerthu'r Dangosyddion

Llesiant Cenedlaethol. Penderfynwyd y bydd pethau'n parhau fel y maent dros dro ar gyfer 2016-17.

3.8 Archwilio Allanol

Mae gan y Cyngor berthynas wrthrychol a phroffesiynol ag archwilwyr ac arolygwr allanol. Er bod arolygon yn ddiweddar wedi cyflwyno rhai negeseuon heriol i'r Awdurdod, mae'r argymhellion i gyd wedi'u gweithredu neu yn y broses o gael eu gweithredu.

Drwy arolygon gan archwilwyr allanol, arolygwyr ac asiantaethau eraill, bydd y Cyngor yn gyson yn chwilio am ffyrdd i wella'r ffordd y caiff ei swyddogaethau eu gweithredu ac wrth geisio defnyddio adnoddau'n ddarbodus, effeithiol ac effeithlon. Lle bydd archwilwyr allanol ac arolygwyr yn darparu eu hadroddiadau i'r cyhoedd, cânt eu cyhoeddi ar eu gwefannau perthnasol.

Mae yna weithdrefnau hefyd i fodloni cyfrifoldebau dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth/y Ddeddf Diogelu Data.

4. Arolwg o Effeithiolrwydd

4.1 Arolwg Blynyddol

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal, o leiaf bob blwyddyn, arolwg o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethiant, gan gynnwys system o reolaeth. Ychwanegir at yr arolwg o effeithiolrwydd gan y Cyfarwyddwyr, y Penaethiaid Corfforaethol ac uwch reolwyr o fewn yr Awdurdod, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethiant, gwaith yr Archwiliad Mewnol, Rheolaeth Risg Busnes a'r Grŵp Rheoli Risg Corfforaethol, a darganfyddiadau a sylwadau gan yr Archwilwyr Allanol ac asiantaethau arolygu ac Arolygiaethau eraill.

Ychwanegir at yr arolygon hefyd gan waith y Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig (Prif Weithredwr), y Swyddog Adran 151 (Prif Swyddog Cyllid), y Swyddog Monitro a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau) wrth gyflawni eu swyddogaethau statudol.

Er mwyn hwyluso'r arolwg blynyddol o effeithiolrwydd ar gyfer 2015-16, paratôdd y Grŵp Rheolaeth Fewnol siart Gantt "Process and Timescale for Compilation and Approval of the Annual Governance Statement" a oedd yn amlinellu'r camau angenrheidiol gan swyddogion ac Aelodau. Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio y broses, ac mae wedi bod yn rhan o bob cam yn yr arolwg blynyddol.

Grŵp Rheolaeth Fewnol y Cyngor, sef y Prif Bennaeth Cyllid, y Cyfarwyddwr Datblygiad, y Pennaeth Cyllid a Gwasanaethau Busnes (Dirprwy Swyddog Ad151), y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau, y Pennaeth Refeniw a Sicrwydd a'r Rheolwr Archwilio Risg Busnes sy'n cydlynu arolwg blynyddol y Cyngor o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol.

Gwnaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol arolwg archwilio o "Compliance with the Local Code of Corporate Governance", a olygodd rhoi'r farn archwilio "sicrwydd sylweddol". Bydd y Cod Llywodraethiant Corfforaethol Lleol yn cael ei adolygu yn 2016 i sicrhau ei fod yn adlewyrchu cydymffurfio â'r Canllaw CIPFA diweddaraf 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework (2016 Edition)' a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn dilyn arolwg o'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol gan y Pwyllgor Archwilio, caiff ei anfon at y Pwyllgor Llywodraethiant Corfforaethol i'w gymeradwyo'n ffurfiol (cyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo dan y Cyfansoddiad, Rhan 3). Caiff y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ei lofnodi gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr.

4.2 Aelodau a Swyddogion

Y Cabinet sy'n monitro effeithiolrwydd systemau llywodraethiant a rheolaeth fewnol drwy ystyried data rheolaidd ar gyllid, rheolaeth fewnol, rheolaeth risg busnes a data perfformiad oddi wrth uwch reolwyr mewn adroddiad chwarterol integredig, ynghyd ag ystyried amrywiol strategaethau, cynlluniau a pholisïau. O 2012-13 cafodd trefniadau adrodd eu hestyn i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Mae Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu o fewn yr Awdurdod yn cefnogi gwaith y Cabinet a'r Cyngor yn eu cyfanrwydd, gan roi cyngor am bolisïau, cyllideb a darparu gwasanaethau. Caiff penderfyniadau'r Cabinet hefyd eu monitro gan y Pwyllgorau hyn, ac mae cyfleustra i 'alw i mewn' benderfyniad wedi'i wneud gan y Cabinet nad yw eto wedi'i weithredu er mwyn asesu a yw'r penderfyniad yn briodol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn darparu craffu ffurfiol a thryloyw o reolaeth risg y Cyngor, rheolaeth fewnol, llywodraethiant corfforaethol, rheolaeth ariannol a threfniadau archwilio mewnol/allanol drwy ystyried adroddiadau rheolaidd oddi wrth uwch reolwyr a Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae'r Pwyllgor Safonau yn goruchwylio safonau ymddygiad Aelodau.

Mae angen tystysgrifau blynyddol Sicrwydd Cyfarwyddiaethau a Gwasanaethau Corfforaethol i sicrhau ymwneud ehangach yn y broses arolygu. Eto, er nad yw'n gallu darparu sicrwydd llwyr, mae'r dull hunanasesu gan Gyfarwyddiaethau yn gallu atgyfnerthu cyfrifoldebau a nodi meysydd y gall fod angen eu gwella, yn enwedig unrhyw faterion a ystyrir yn flaenoriaeth uchel i'w cynnwys yn y Cynllun Gweithredu ar y diwedd. Mae'n llwybr i roi darlun mwy cyflawn ac mae wedi'i gydnabod gan yr archwiliad allanol yn arfer da.

Caiff y wybodaeth hon ei hadolygu gan y Prif Swyddog Cyllid a'r Rheolwr Archwilio a Risg Busnes, ynghyd â gwybodaeth berthnasol arall megis adroddiadau monitro'r gyllideb wrth lunio'r datganiad hwn.

Er mwyn gwella rhyngweithio a her uwch reolwyr yn yr arolwg blynyddol o effeithiolrwydd, cynhaliwyd gweithdy ar y cyd rhwng Tîm Rheolwyr Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaethau Corfforaethol yn ystod camau cynnar y broses. Cafwyd gwell rhyngweithio hefyd a her gyda'r Aelodau, wedi'i hwyluso gan gyfarfod rhwng y Rheolwr Archwilio a Risg Busnes ac Arweinydd y Cyngor.

4.3 Archwilio Mewnol

Caiff effeithiolrwydd dulliau rheoli mewnol y Cyngor ei archwilio'n fanwl drwy waith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Mae cynllun gwaith yr adran wedi'i seilio ar anghenion a phroses asesu risgiau ar ôl ymgynghori â Chyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaethau, a'i gymeradwyo gan y Swyddog Adran 151 a'r Pwyllgor Archwilio.

Bydd y Rheolwr Archwilio a Risg Busnes yn adrodd am arolygon archwilio unigol ac aseiniadau, yn benodol o ran y trefniadau llywodraethiant, rheolaeth fewnol, rheolaeth risg a rheolaeth ariannol sydd ar waith, ac mae'n darparu barn a ydynt yn ddigonol ac yn effeithiol, ynghyd ag argymhellion a chynlluniau gweithredu ar gyfer gwella.

Ni all y Gwasanaeth Archwilio Mewnol roi sicrwydd llwyr, a gall casgliadau a luniwyd fod wedi gorfod dibynnu ar sicrwydd a roddwyd gan reolwyr. Ond ar sail canlyniadau arolygon a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn bydd barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn parhau gan fod gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith ar gyfer llywodraethiant, rheolaeth fewnol, rheolaeth risg a rheolaeth ariannol, a'r rheiny'n gweithio'n effeithiol.

Caiff gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, ynghyd ag agweddau ariannol ehangach ar lywodraethiant corfforaethol a rheolaeth perfformiad, eu harchwilio a'u dilysu bob blwyddyn gan archwilwyr allanol y Cyngor.

4.4 Asiantaethau Arolwg Allanol

Mae archwilwyr allanol y Cyngor (Swyddfa Archwilio Cymru) ac asiantaethau arolygu eraill, megis Estyn ac AGGCC yn darparu sicrwydd pellach neu farn drwy adrodd drwy gydol y flwyddyn ar berfformiad yr Awdurdod, a gall y rhain gynnwys sylwadau ar y systemau rheolaeth fewnol. Mae cynlluniau gwella a gweithredu wedi'u datblygu i ymateb i unrhyw argymhelliad a wnaed. Cafwyd yr adroddiadau canlynol gan yr Asiantaeth Arolwg Allanol yn ystod 2015-16:

- HMI Probation – Short Quality Screening (SQS) of Youth Offending Work
- Welsh Government Supporting People Programme Grant Funding
- OGC Pembroke Learning Campus Gateway Review
- WAO Supporting the Independence of Older People: Are Councils Doing Enough?
- WAO Review of Corporate Safeguarding Arrangements in Welsh Councils
- OGC Gateway Review (21st Century Schools)
- WAO Corporate Assessment
- WAO Financial Resilience

Caiff yr holl adroddiadau archwilio allanol eu cofnodi ar feddalwedd awtomatig yr Archwiliad Mewnol (MKInsight) i ddarparu mwy o arolygu barn ac argymhellion darparwyr sicrwydd. Cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio i'w hystyried, a gallant wedyn gyfeirio meysydd sy'n peri gofid at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol. Caiff argymhellion o arolygon allanol eu trin yn unol â Phrotocol Archwiliad Mewnol ar Fonitro Argymhellion ac Uwchgyfeirio.

Bydd Archwiliad Allanol (Swyddfa Archwilio Cymru) yn cynhyrchu Adroddiad Gwella Blynyddol yn ogystal â Llythyr Blynyddol byr eu Harchwilydd Penodedig.

Paratôdd Swyddfa Archwilio Cymru Asesiad Corfforaethol o'r Cyngor ym mis Ebrill 2015, ynghyd ag adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015. Mae cynllun gweithredu manwl wedi'i ddatblygu a chaiff ei fonitro gan y Tîm Rheolaeth Gorfforaethol bob mis a chan y Cabinet a'r Pwyllgor Archwilio bob chwarter.

5. Materion Llywodraethiant Arwyddocaol a Blaenoriaethau ar gyfer Gwella o Ddatganiad Llywodraethiant Blynyddol 2014-15

Yn y tabl isod gwelir y cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â'r tri mater llywodraethiant sylweddol a'r pedair blaenoriaeth ar gyfer gwella y tynnwyd sylw atynt yn 2014-15 a'r un flaenoriaeth ar gyfer gwella a ddygwyd ymlaen o Ddatganiadau Llywodraethiant Blynyddol 2013-14. Adroddwyd amdanynt i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor ym mis Chwefror 2016:

Rhif	Materion Llywodraethiant Arwyddocaol	Cynnydd yn Ystod 2015-16	Gweithredu Pellach ar gyfer 2016-17
5.1	**Heriau Ariannol** Bydd yr heriau ariannol i'r Cyngor yn parhau am gyfnod amhenodol wrth i Lywodraeth y DG geisio mynd i'r afael a dyled y sector cyhoeddus ac wrth i Gymru barhau i rannu effaith toriadau parhaus mewn gwariant cyhoeddus. Bydd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i warchod ariannu iechyd, a'r toriadau o ganlyniad yng nghyllid llywodraeth leol, yn golygu gorfod gwneud dewisiadau anodd. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrth y Cyngor am gynllunio ar gyfer gostyngiad blynyddol o 4.5% yn ei setliadau ariannol, sydd wedi golygu bod angen lleihau costau/ effeithlonrwydd o £12.3m ar gyfer 2015-16, £13.1m ar gyfer 2016-17 ac £11.3m ar gyfer 2017-18 (gan gynnwys codiadau treth gyngor o 4.5% y flwyddyn). Llwyddwyd i gael y gostyngiadau cost/effeithlonrwydd o £12.9m ar gyfer 2014-15. Mae'r cylch nesaf o grantiau Ewrop yn cychwyn, ond ni wyddom eto a fydd y Cyngor yn llwyddo i gael arian yn y cylch nesaf. Mae'r Cyngor yn parhau i symud ymlaen gyda'i raglen o £150m ar gyfer '21st Century Schools'.	• Cynllun Ariannol Cyfnod Canolig 2016-20 wedi'i ddatblygu a'i gymeradwyo gan y Cyngor. • Cyllideb ar gyfer 2016-17, yn ymgorffori gostyngiadau cost/effeithlonrwydd o £13.8m a £2.5m mewn Treth Gyngor ychwanegol, wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor. • Cynnydd o 50% mewn Treth Gyngor i berchnogion ail gartrefi wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor, i'w weithredu yn 2017-18. • Gwaith wedi'i wneud gan PWC i helpu'r Awdurdod i nodi gostyngiadau cost/effeithlonrwydd posibl a chyfleoedd ar gyfer trawsnewid. • Ymgynghori ag Aelodau, Gweithwyr a'r Gymuned ar y gyllideb wedi'i digwydd drwy gydol 2015-16.	**Gweler 6.1.**

Rhif	Materion Llywodraethiant Arwyddocaol	Cynnydd yn Ystod 2015-16	Gweithredu Pellach ar gyfer 2016-17
5.2	**Papur Gwyn ar Ddiwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar gynigion ar newidiadau mewn llywodraeth leol yng Nghymru yn y Papur Gwyn ar Ddiwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 28 Ebrill 2015 a chaiff crynodeb o'r camau ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Mae'r newidiadau a gynigir yn gobeithio gosod allan swyddogaeth Llywodraeth Leol am y genhedlaeth nesaf drwy ddarparu diben newydd a mwy o newydd-deb yng nghynllun Awdurdodau Lleol ar draws Cymru.	• Ymwneud parhaus y Cyhoedd, Gweithwyr ac Aelodau i ailddiffinio Gweledigaeth ac Egwyddorion Llywio'r Awdurdod. • Cyfleoedd i Weithio ar y Cyd i barhau i gael ei nodi a'i archwilio, e.e. TGCh, Comisiynu Gofal Cymdeithasol a Chaffael gyda Chyngor Sir Gaerfyrddin a Chaffael gyda Choleg Sir Benfro. • Arolwg o'r Cyfansoddiad ar y ffordd. Strwythur Pwyllgorau Diwygiedig i gychwyn ym mis Medi 2016.	**Gweler 6.2.**
5.3	**Perthynas Aelodau a Swyddogion** Gallai ymddygiad effeithio ar wneud penderfyniadau, a gallai hynny olygu methu â chyrraedd amcanion a dirywiad mewn perfformiad.	• Y Cyfansoddiad yn cael ei arolygu, Cam 1 i gael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo ym mis Gorffennaf 2016, Cam 2 i gael ei arolygu yn yr hydref 2016. • Strwythur newydd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi'i gymeradwyo, i gael ei weithredu ym mis Medi 2016. • Rhaglen barhaus o hyfforddiant.	**Gweler 6.3.**
Rhif	**Blaenoriaethau ar gyfer Gwella (2013-14)**	**Cynnydd yn ystod 2015-16**	**Gweithredu Pellach ar gyfer 2016-17**
5.4	**Trefniadau Rheoli Cyllid Grant** Datblygu dull corfforaethol o weinyddu cyllid grantiau gan sicrhau ystyried yr holl risgiau ariannol a darparu strategaethau effeithiol i dynnu allan pe byddai cyllid grantiau'n peidio.	• Ychydig gynnydd oherwydd yr adnoddau ar gael ac oedi cyn cael cadarnhad am y cylch nesaf o gyllid grantiau Ewrop. • Parhaodd yr Archwiliad Mewnol i ddarparu gwaith cynghori a sicrwydd.	• Rhoi ystyriaeth i'r cwestiwn a ddylai rheoli cyllid grantiau gael ei wneud yn gorfforaethol ynte parhau gyda'r Cyfarwyddiaethau. • Arolwg yn parhau gan yr Archwiliad Mewnol o drefniadau rheoli cyllid grantiau. • Strategaethau risgiau ariannol a strategaethau effeithiol ar gyfer tynnu allan i gael eu cynnwys ym mhob grant newydd, o Ewrop ac fel arall.

Rhif	Blaenoriaethau ar gyfer Gwella (2014-15)	Cynnydd yn ystod 2015-16	Gweithredu Pellach ar gyfer 2016-17
5.5	**Penodi Prif Weithredwr ac adolygu'r Strwythur Uwch Reolwyr** Mae swyddogaeth y Prif Weithredwr/Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig wedi bod yn rhan o gyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Cludiant, Tai a'r Amgylchedd ers mis Awst 2014, pan benodwyd Prif Weithredwr/Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig newydd, a ddisgwylid ym mis Gorffennaf 2015.	• Penodwyd Prif Weithredwr ym mis Gorffennaf 2015 • Strwythurau Uwch Reolwyr a Chyfarwyddiaethau i gael eu harolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae'r amgylchiadau presennol yn golygu bod angen gosod rhai swyddogaethau ar sail dros dro.	• Y Prif Weithredwr i adolygu ac alinio'r strwythur Uwch Reolwyr â Rhaglen Drawsnewid y Cyngor.
5.6	**Partneriaethau a Phrosiectau Arwyddocaol** Adeiladu ar y gwaith a wnaed yn 2014-15 i atgyfnerthu'r trefniadau llywodraethiant cyffredinol mewn cysylltiad â gwaith partneriaeth a rheoli prosiectau arwyddocaol.	• Ychydig gynnydd sydd wedi'i wneud.	• Gweithdrefn Partneriaethau a diffiniad o bartneriaethau i gael eu hadolygu i sicrhau bod rheoliadau grymus wedi'u diffinio. • Hyrwyddo gofynion y Weithdrefn Partneriaethau. • Parhau i ddatblygu Cofrestri Risg Busnes i gefnogi pob Partneriaeth a Phrosiect arwyddocaol. • Cyflwyno'r Pwyllgor Partneriaethau Trosolwg a Chraffu ym mis Medi 2016.
5.7	**Cymorth y Wladwriaeth** Nodwyd nifer o gyfleoedd mewn arolwg Archwiliad Mewnol i wella'r trefniadau sydd ar waith i gydymffurfio â gofynion Cymorth y Wladwriaeth.	• Y Pennaeth Cyllid a Gwasanaethau Busnes wedi'i benodi'n swyddog arwain ar gyfer Cymorth y Wladwriaeth. • Gweithgor Cymorth y Wladwriaeth a chynllun gwaith wedi'u sefydlu a chyfarfodydd rheolaidd wedi'u cynnal. • Trosolwg wedi'i darparu i Gyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaethau. • Swyddog enwebedig o bob gwasanaeth wedi'i nodi.	• Hyfforddiant i gael ei ddarparu i swyddogion penodedig o bob maes gwasanaeth. • Cynllun gwaith i gael ei fonitro gan Grŵp Gweithgor Cymorth y Wladwriaeth.

Rhif	Blaenoriaethau ar gyfer Gwella (2014-15)	Cynnydd yn ystod 2015-16	Gweithredu Pellach ar gyfer 2016-17
5.8	**Rheolaeth Asedau** Mae arolygon Archwiliad Mewnol mewn dwy flynedd yn olynol wedi darparu dim ond ychydig farn sicrwydd am Reolaeth Asedau. Yn y ddwy flynedd mae SAC, fel rhan o'u harchwiliad allanol o'r asedau sefydlog o fewn y cyfrifon, wedi mynnu bod nifer sylweddol o ddiwygiadau'n cael eu gwneud mewn prisiadau.	• Arolwg Archwiliad Mewnol am drydedd flwyddyn yn olynol wedi darparu dim ond ychydig farn sicrwydd, er ein bod yn symud i'r cyfeiriad cywir. • Nid yw Prisiadau Asedau yn cael eu gwneud na'u diweddaru ar y Gofrestr Asedau mewn pryd, gan olygu bod Swyddfa Archwilio Cymru yn eu profi ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2015-16.	• Gweithredu argymhellion a wnaed gan Archwiliad Mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru. • Arolwg o allu o fewn yr adran Rheoli Eiddo ac Asedau. • Prisiadau mewn pryd a diweddaru'r gofrestr asedau. • Monitro parhaus gan y Pwyllgor Archwilio.

6. Materion Llywodraethiant Arwyddocaol/Blaenoriaethau ar gyfer Gwella o Ddatganiad Llywodraethiant Blynyddol 2015-16

Mae tri mater llywodraethiant arwyddocaol a phedair blaenoriaeth ar gyfer gwella yn dilyn hwn, arolwg 2015-16:

Rhif	Materion Llywodraethiant Arwyddocaol	Gweithredu o Bwys ar gyfer 2016-17

6.1	**Heriau Ariannol**
	Bydd yr heriau ariannol i'r Cyngor yn parhau am gyfnod amhenodol wrth i Lywodraeth y DG barhau i geisio mynd i'r afael â dyled y sector cyhoeddus, ac wrth i Gymru barhau i rannu effaith toriadau parhaus mewn gwariant cyhoeddus. Bydd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i warchod ariannu iechyd, a'r toriadau o ganlyniad yng nghyllid llywodraeth leol, yn golygu gorfod gwneud dewisiadau anodd.
	
	Mae Cynllun Ariannol Cyfnod Canolig 2016-20 yn rhagweld diffyg ariannu o £52.5m dros y cyfnod o bedair blynedd. Mae hyn yn seiliedig ar sefyllfa waethaf o ostyngiad blynyddol o 4.5% yn y setliad ariannol oddi wrth Lywodraeth Cymru. Bydd angen lleihau costau/effeithlonrwydd o £42.8m a chodiadau mewn Treth Gyngor (5.0% y flwyddyn) o £9.7m i gau'r bwlch ariannu.
	
	Llwyddwyd i gael lleihad costau/effeithlonrwydd o £10.1m a £2.2m o incwm Treth Gyngor ychwanegol ar gyfer 2015-16 er bod rhai o'r gostyngiadau costau /effeithlonrwydd wedi eu disodli gan eraill yn ystod y flwyddyn.
	
	Mae'r Cyngor yn dal i wneud cynnydd gyda'i raglen Ysgolion 21ain Ganrif o £149.9m.
		• Arolygu a diweddaru tybiaethau a wneir yng Nghynllun Cyfnod Canolig 2016-20.
		• Sicrhau lleihau costau/effeithlonrwydd o £13.8m a fwriedir ac incwm Treth Gyngor ychwanegol o £2.5m.
		• Symud ymlaen y Rhaglen Drawsnewid, gan weithio mewn tair ffrwd:
		  ○ Tîm Trawsnewid Mewnol
		  ○ Gweithio ar y cyd, e.e. Sir Gaerfyrddin
		  ○ gweithio gyda Phartner Strategol
		• Parhau i ymgynghori ar y gyllideb ac ymarferiadau ymwneud gydag Aelodau, Gweithwyr a'r Gymuned.

Rhif	Materion Llywodraethiant Arwyddocaol	Gweithredu o Bwys ar gyfer 2016-17
6.2	**Trawsnewid Gwasanaethau a Chydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** Mae'r bwlch ariannu a nodwyd yn MTFP 2016-20 yn ei gwneud yn ofynnol cael arolwg o'r holl wasanaethau a'r dewisiadau darparu er mwyn sicrhau gostyngiadau cost/effeithlonrwydd sylweddol o £42.8m sy'n ofynnol. Rhaid i benderfyniadau gydymffurfio ag 'Egwyddor Datblygu Cynaliadwy' yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r saith Nod Llesiant a fydd yn effeithio ar yr arfarniad o ddewisiadau darparu gwasanaethau yn y dyfodol fel rhan o'r Rhaglen Drawsnewid.	• Parhau ymrwymiad i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro. • Arfarnu'r holl wasanaethau i nodi cyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd a ffyrdd newydd o weithio. • Cyflwyno strwythur newydd o Bwyllgorau yn yr hydref 2016 i herio'r holl wasanaethu ar draws yr Awdurdod, gan gynnwys Pwyllgor Partneriaethau Trosolwg a Chraffu. • Sicrhau bod datblygiadau strategol yr Awdurdod yn gweddu i Amcanion Llesiant.
6.3	**Perthynas Aelodau a Swyddogion** Gallai ymddygiad effeithio ar wneud penderfyniadau, a gallai hynny olygu methu â chyrraedd amcanion a dirywiad mewn perfformiad.	• Risg strategol Perthynas Aelodau a Swyddogion i gael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethiant Corfforaethol i benderfynu camau rheoli risg. • Gwahanu clir rhwng swyddogaethau Aelodau a Swyddogion er mwyn gallu rheoli gwasanaethau'n effeithiol. • Protocol rhannu gwybodaeth a chyfarfodydd cefndir rheolaidd i Aelodau ar faterion hanfodol/ allweddol. • Cyflwyno'r Cyfansoddiad Newydd. • Rhaglen barhaus o hyfforddiant. • Strwythur Trosolwg a Chraffu newydd.
Rhif	**Blaenoriaethau ar gyfer Gwella**	**Gweithredu o Bwys ar gyfer 2016-17**
6.4	**Cydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** Y Ddeddf, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2014, yw'r fframwaith cyfreithiol newydd sy'n dwyn ynghyd ac yn moderneiddio cyfraith Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a Gweinidogion Cymru i weithio i hyrwyddo llesiant y rhai sydd ag angen gofal a chymorth neu ofalwyr sydd ag angen cymorth.	• Cynnwys meysydd allweddol ar gyfer gweithredu mewn Cynlluniau Gwella Gwasanaethau Adrannol. • Cynhyrchu adroddiadau monitro rheolaidd ar gyfer y Bwrdd Rhaglenni er mwyn sicrhau cynnydd. • Sefydlu grwpiau prosiect/cynlluniau unigol i fynd i'r afael â themâu, e.e. IAA, adborth cwsmeriaid am ganlyniadau. • Sicrhau bod Cylch Gwaith Partneriaeth Comisiynu HSC&WB yn delio ag anghenion aml-asiantaeth. • Gweithredu a monitro rhaglen o hyfforddiant angenrheidiol a chyfrannu yn ôl yr angen at y Cydweithredu Rhanbarthol.

Rhif	Blaenoriaethau ar gyfer Gwella	Gweithredu o Bwys ar gyfer 2016-17
6.5	**Perfformiad Cyfnod Allweddol 4** Un yn unig o'r wyth ysgol uwchradd yn Sir Benfro a gafodd ganlyniadau yn unol â disgwyliadau (L2+ - 5 A*-C gan gynnwys Mathemateg a Chymraeg/Saesneg) yn 2015. Cofnodwyd cynllun gweithredu penodol Cyfnod Allweddol 4 ac adeiladwyd arno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Plant a Theuluoedd ym mis Tachwedd 2015.	• Monitro gweithredu cynllun gweithredu Cyfnod Allweddol 4 i wella safonau perfformiad. • Monitro parhaus a herio perfformiad ysgolion ar sail disgwyliadau Education Through Regional Working (ERW) a amlinellwyd yn y ddogfen Grisiau Ymyrryd Rhanbarthol sydd wedi'i chytuno. • Cymorth pellach gan ERW i sicrhau gwelliant parhaus ym mherfformiad Cyfnod Allweddol 4.
6.6	**Monitro Contractau Corfforaethol** Gwnaed arolwg gan Archwilio Mewnol o drefniadau Monitro Contractau yn 2015-16 a rhoddwyd barn sicrwydd gyfyngedig. Gwnaed argymhellion ar gyfer gwella i sicrhau bod trefniadau monitro cyson a chadarn ar waith ledled yr Awdurdod. .	• Gweithredu argymhellion yr Archwiliad Mewnol. • Treialu swyddogaeth 'Swyddog Monitro Contractau'.
6.7	**Gweithredu Argymhellion Asesu Corfforaethol SAC** Gwnaeth Swyddfa Archwilio Cymru Asesiad Corfforaethol ym mis Ebrill 2015, a chyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Rhagfyr 2015. Mae cynllun gweithredu manwl wedi'i ddatblygu i ymateb i'r argymhellion.	• Y Cynllun Gweithredu ar waith yn cael ei fonitro bob mis gan CMT a bob chwarter gan y Cabinet.

Arweinydd/Prif Weithredwr (Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig) Rydym wedi'n cynghori am oblygiadau canlyniadau arolwg o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant, gan gynnwys y system o reolaeth fewnol gan y Grŵp Rheolaeth Fewnol a chynllun i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau bod gwelliant parhaus yn digwydd.

Hyd eithaf ein gwybodaeth, mae'r fframwaith a nodwyd uchod wedi'i weithredu'n effeithiol yn ystod y flwyddyn.

Bydd y broses ar gyfer arolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol yn parhau i gael ei datblygu yn y dyfodol, gan gymryd i ystyriaeth y Cod, profiad, arfer da, canllaw priodol ac unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth yn effeithio ar y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol.

Bwriadwn, yn ystod y flwyddyn i ddod, gymryd camau i fynd i'r afael â'r materion uchod i wella ein trefniadau llywodraethiant ymhellach. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r angen am wella a nodwyd yn ein harolwg o effeithiolrwydd, a byddwn yn monitro eu gweithredu fel rhan o'n harolwg blynyddol nesaf.

COUNCILLOR KEN ROWLANDS
CHAIRMAN CORPORATE GOVERNANCE COMMITTEE

CYNGHORYDD J. ADAMS

Arweinydd

Dyddiad: 27/07/2016

I. WESTLEY

Prif Weithredwr

Dyddiad: 27/07/2016